

DEG ODL
O FAWL I GRIST,

O WAITH GWAHANOL BRYDYDDION.

I'W CANU AR Y DŌN A ELWIR "BELISLE MARCH."

I. *David Thomas, Swydd Gaernarfon.*

P**O**B perchen Awen burwen barod,
Pob tafod yn gytun,
Rho'wch fawl yn ufudd i Ddew nefol,
Trag'wyddol Tri ac Un;
I ganu'n gynnar gyson-gerdd seingar,
Trigolion daear de'wch,
I gofio hynod taith ryfeddod,
Mewn syndod cyd-nesewch:

Our God is full of grace,
Let all the human race,
Pay their duty to the Almighty,
Before his heavenly face.

Fe ddaeth yr Iesu i'r ddaear isod,
O'i hynod le ei hun,
Fe wisgai'n brysur, fel creadur,
Am dano natur dyn.

To save our souls from hell,
That we may with him dwell,
The love and mercy of the Deity,
No tongue can wholly tell.

Am wneud yn happus ddyn truenus,
Oedd glwyfus, fe gaiff glod;
Bydd parch ac urddas addas iddo,
Tra byddo'r nef yn bod.

II. *Jonathan Hughes.*

I NI mae'n weddus felus foliant,
 Gogoniant Duw ar gân,
 Agoriad geiriau, yn ol ein doniau,
 O wir galonau glân,
 Gan geisio'n gyson ganiad Sion,
 I'r Iesu cyfion eu,
 Mewn odlau 'sbrydol, salmau duwiol,
 Fo'n llesiol i bob llu.

The duty of every kind,
 Of men with all their mind,
 To praise and honour our dear Saviour,
 That favour we may find.

Oblegid iddo blygu a dyodde'
 Hyd angau friwiau o frad ;
 O gariad gwirfodd nef agorodd,
 Fe'i rhoddodd i ni'n rhad.

And yet doth always call,
 For sinners worst of all ;
 He turn'd with bloody bruised body,
 The fury of Adam's fall.

Mae gweinidogaeth iechydwriaeth,
 Yn helaeth amlhau,
 Maddeuant pechod a gollyngdod,
 A chymmmod i'n hiachau.

III. *Walter Davies, Llanfechen.*

CLYWAIS ganiad, lafar lesiad,
 Mewn tyniad pur gytun,
 A wnaeth dau brydydd, o fawl i'n Harglwydd,
 Tragywydd Tri ac Un :
 Hil brudd Hebron, greaduriaid gwaelion,
 Ni ddichon dynion doeth,

Gallu'r Dawdod sydd i'w ganfod,
 I nod ryfeddod faith,
 A doethineb anfeidroldeb,
 Yn wyneb hyn o waith.

The angels all above,
 Do praise with flaming love,
 May we here now procure,
 A wing to do as dove.

Tra fo'm yma, sŵn Hosanna,
 Fo'n benna' o fewn i'n byd,
 Daw'n y diwedd i ni annedd,
 Yn llawn ei hedd o hyd.

IX. *Daniel Evans, Ceredigion.*

CANU hynod fawl i'r Duwdod,
 A wnaſ â'm tafod tân;
 Dyna gyson waith goreu-lon,
 Angylion gloywlon glân:
 Yn dra chynnar Iesu mwyngar,
 A ddaeth i'r ddaear ddu,
 I waredu ac i brynu,
 I dynna myrdd i'w dŷ.

Come fall at Jesus' feet,
 To every man 'tis meet,
 To the heav'nly sons of glory,
 His praise is surely sweet.

Fe balmentodd ffordd i'r nefoedd,
 Fe'i dododd i ti'r dyn,
 Yn rhwydd barod ffordd ddi-drallod,
 Drwy'i hynod loes ei hun.

Come therefore sound his praise,
 With charming loving lays;
 And to honour Christ thy Saviour,
 Endeavour all thy days.

Boed ei gynghor i ti'n angor,
Tra ar y cefnfor cul,
Nes o'r diwedd gwel'd ei hafaidd
Angylaidd sanctaidd Sul.

X. *William Davis, Coed-y-cymmer.*

RHOF finnau fawrglöd i fy Arglwydd,
Yn rhwydd yn ol y rhan,
Er nad wy' gywraïn i wan geiriau,
A'r Awen weithiau'n wan;
Am ei gariad di derfyniad,
A threfniad Un a Thri,
Ar ol ei ffoledd digyffelyb,
A ddaeth i'n hachub ni.

Now to his Holy name,
Who blotted out our blame,
Give him always Hallelujah,
Hosanna to the same:

Nes bo'r ehangder, drwy'r uchelder,
A'r dyfnder oll ar dân;
Mal un genau, mawl a ganant,
Ogoniant Duw ar gân:

Sweet sanctified saints
Complete beyond complaints
Sons of glory surpass highly
Our earthly filthy faints.

Ac aed yn gyd-gerdd, sain gyson-gerdd,
Yn un-gerdd, yn y nef;
A chyd-weued teulu daear
Eu llafar yn un llef.